**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL**

**24 Mawrth 2021**

Yn Bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd P Baker BEM yn ystod cyhoeddiadau'r Cadeirydd (*gweler Cofnod 4*); cyrhaeddodd Mrs S Hoss cyn ystyried yr adroddiad ar yr Opsiynau Fformat Cyfarfodydd Pwyllgor (*gweler Cofnod 10).]*

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 12.20pm; 12.30pm - 1.25pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Dr R Plummer.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3ydd o Chwefror 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3ydd o Chwefror 2021.

**3. Materion yn codi**
Nid oedd unrhyw faterion wedi codi.

**4. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Dechreuodd y Cadeirydd drwy longyfarch Dr Rachel Heath-Davies a Mrs Julie James ar eu hail-benodi i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru, gan ddweud ei fod yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r ddwy. Dywedodd nad oedd wedi mynychu unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus ers y cyfarfod diwethaf o'r Awdurdod oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Serch hynny dywedodd ei fod wedi cadeirio cyfarfod o Barciau Cenedlaethol Cymru ac wedi mynychu dau gyfarfod o Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru oedd wedi trafod materion megis tai yng nghefn gwlad, y weledigaeth wledig a'r maniffesto, y Bil Amaethyddiaeth, amnewid cyllid yr UE, cytundeb masnach Brexit, effaith ffosffadau ar gynllunio, a'r prosiect ymchwil ar ieuenctid cefn gwlad. Roedd hefyd wedi mynychu cyfarfod o'r Cyngor Partneriaeth lle'r oedd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AoS yn

bresennol, ac roedd y cyfarfod wedi ystyried adroddiadau ar y trefniadau pontio ar ôl gadael yr UE, Wythnos Hinsawdd Cymru 2020, y Gronfa Galedi, a'r Panel Llywodraeth Leol ar Strategaeth Datgarboneiddio. Hefyd roedd y Cadeirydd wedi mynychu sawl digwyddiad a gynhaliwyd gan Fforwm Arfordirol Sir Benfro megis Gwarchod Moroedd Cymru, Y Dreftadaeth Ddiwydiannol, a Newid yn yr Arfordiroedd a Bywyd Gwyllt Morol Cymru. Dywedodd bod swyddogion y Parc Cenedlaethol wedi siarad yn rhai o'r digwyddiadau hyn, a phleser oedd gweld y cyd-weithio rhwng y sefydliadau. Roedd hefyd yn gobeithio y byddai'n bosibl i'r swyddogion roi eu cyflwyniadau i'r Aelodau yn y dyfodol.

**NODWYD.**

**5. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

(i) Y Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2020 ac ar 27 Ionawr 2021.
(ii) Y Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2021.
(iii) Y Pwyllgor Ieuenctid a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2021.
(iv) Y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2021.
(v) Y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2021.
(vi) Y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2021.
(vii) Y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2021.

O ran cyfarfod y Pwyllgor Personél, holwyd ynglŷn â hynt y 'gwasanaeth clust i wrando' arfaethedig, ac atebodd y Prif Weithredwr y byddai'r cynllun yn cael ei lansio yng nghylchlythyr staff yr Awdurdod fis Ebrill. Mynegodd un Aelod bryder y dylai cylch gwaith y gwasanaeth a'r ystod o opsiynau fydd ar gael i'r staff fod yn glir i'r Aelodau ac i'r staff, a rhoddwyd sicrwydd bod y cyfryw faterion wedi'u trafod gan y Pwyllgor Personél a'u hymgorffori yn y cynllun.

**PENDERFYNWYD** nodi/mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.

**6. Llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru**

Dywedwyd bod Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn cyflwyno Llythyr Cylch Gwaith bob blwyddyn oedd yn nodi cylch gwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith yr Awdurdod yn 2021-22 a hefyd yn amlinellu'r setliad ariannu. Roedd y prif flaenoriaethau a amlinellwyd yn y llythyr Cylch Gwaith wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Corfforaethol. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi anfon ateb at y

Gweinidog yn diolch iddi am y neges gref o hyder a fynegwyd yn ei llythyr ac am y cynnydd mewn cyllid.

Cytunodd yr Aelodau bod y llythyr yn un rhagorol oedd yn adlewyrchiad da o'r gwaith a wnaed gan y swyddogion dros y deuddeg mis diwethaf, ac yn wir dros y blynyddoedd diwethaf, ac oedd yn nodi rhaglen gadarnhaol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Roedd y cyfeirio at reoli'r pwysau ar gymunedau lleol a grëwyd gan dwristiaeth a hamdden awyr agored i'w groesawu gan fod y materion hyn wedi bod yn arbennig o heriol yr haf diwethaf. Serch hynny, cydnabyddir hefyd bod ymwelwyr yn hanfodol i'r economi leol. Cytunwyd bod cydweithio parhaus yn Sir Benfro a gyda rhanddeiliaid ehangach ledled Cymru yn hanfodol er mwyn cyflawni'r amcanion tymor hwy.

O ran y setliad ariannu, er bod yr Aelodau'n croesawu hyn, mynegwyd peth pryder ynghylch natur tymor byr y setliad, a'r gobaith oedd y gellid darparu cyllidebau 3-5 mlynedd yn y dyfodol i hwyluso'r broses o gyflawni strategaethau tymor hwy.

**NODWYD.**

**7. Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021/22**

Dywedwyd bod y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau yn nodi Amcanion Llesiant Corfforaethol yr Awdurdod, sef un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn nodi'r rhaglen waith cwbl gyson yr Awdurdod ar gyfer 2021/22 fyddai'n ategu'r gwaith o gyflawni'r amcanion hyn.

Roedd swyddogion ar draws yr Awdurdod wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun drwy gyfarfodydd ymgysylltu, ac roedd y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau drafft wedi'i gyflwyno gerbron cyfarfod mis Chwefror o'r Awdurdod ar gyfer sylwadau'r Aelodau, ac wedi hynny fe'i cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori. Hefyd cynhaliwyd sesiwn gyda chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Ieuenctid.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am gynhyrchu dogfen mor gynhwysfawr, oedd yn dwyn ynghyd y llinynnau niferus o waith yr Awdurdod. Awgrymwyd y gallai mwy o fanylion fod wedi'u cynnwys ynghylch dulliau'r Awdurdod o gefnogi'r economi leol, a hefyd ar gyfleoedd i gefnogi'r iaith Gymraeg drwy fesurau megis gwella sgiliau neu gyflogadwyedd, o ystyried y targed a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o 1%. Er mwyn cefnogi'r targed hwn, gofynnwyd hefyd am i fesur nifer yr asesiadau o effaith ceisiadau cynllunio mewn Ardaloedd Sensitif o ran yr Iaith Gymraeg gael ei wneud yn y dyfodol.

Cytunodd y swyddog y gellid monitro data sylfaenol ynghylch asesiadau o effaith cynllunio drwy fframwaith perfformiad yr Awdurdod, a byddai gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ynghylch yr Iaith Gymraeg a'r adferiad gwyrdd. Mewn ymateb i gwestiwn pellach, eglurodd y swyddog y byddai'r Cynllun yn awr yn cael ei ddosbarthu ymhlith y staff ac y byddai ei gynnwys yn cael ei amlygu yn y Cynlluniau Tîm ac yn y fframwaith perfformiad a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol ac i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol.

Amlygodd yr Aelodau hefyd bod Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb Hiliol wedi'i gyhoeddi yn ystod yr wythnos flaenorol a gofynnwyd a ddylid cynnwys cyfeiriad ato yn y Cynllun Corfforaethol. Atebodd y swyddog bod ymchwil yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar Brofiadau i Bawb ac y byddai'r ymchwil hwnnw yn cael ei ddefnyddio, ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, i adolygu Cynlluniau'r Awdurdod er mwyn amlygu'r newidiadau mewn dull mwy lleol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021/22, a'r swyddogion yn cytuno i ymgymryd â'r gwaith ychwanegol yn y meysydd a glustnodwyd yn y cyfarfod.

**8. Cynlluniau Gweithredu i ategu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-2024**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2020-2024 wedi'i fabwysiadu ar yr 11eg o Ragfyr 2019 ac y byddai'n cael ei ategu gan gyfres o gynlluniau gweithredu. Byddai'r cynlluniau gweithredu yn nodi ymatebion cyfredol ac arfaethedig yr Awdurdod i heriau polisi allweddol a glustnodwyd yn y Cynllun Rheoli a thrwy hynny yn pontio rhwng y Cynllun Rheoli pum mlynedd a'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau blynyddol. Roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo'r cynllun gweithredu "Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd" ar y 3ydd o Fehefin 2020; yn dilyn ymgynghori â staff yr Awdurdod ac â sefydliadau partner, roedd dau gynllun gweithredu pellach yn cael eu cyflwyno yn awr, sef "Dathlu Treftadaeth" ac "Adfer Natur" er sylw a chymeradwyaeth yr Aelodau. Nodwyd y byddai pedwerydd cynllun gweithredu, sy'n ymwneud â hamdden a thwristiaeth, yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod yn y dyfodol.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith yn cynhyrchu'r cynlluniau gweithredu, oedd yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r modd y caiff yr amcanion a glustnodir yn y Cynllun Rheoli eu cyflawni. Hefyd roedd yr Aelodau yn falch o weld yr ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol wrth wneud hynny, gan gydnabod bod angen gweithio gyda'n gilydd er mwyn llwyddo i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Gofynnodd yr Aelodau a oedd hi'n bosibl cynnwys mwy o wybodaeth am yr amseru ac am y swyddogion arweiniol. Cytunodd y swyddogion i wneud hyn. Gofynnwyd

hefyd am yr adnoddau ar gyfer y camau gweithredu gan na nodwyd hynny mewn nifer o'r achosion. Dywedodd y Swyddog Polisi Cadwraeth bod y Cynlluniau Gweithredu yn cynnwys y camau yr oedd cyllid eisoes wedi'i gymeradwyo ar eu cyfer yn ogystal â'r camau y byddai cyllid yn cael ei geisio ar eu cyfer drwy sianeli arferol yr Awdurdod, fydd yn y pen draw yn cael ei gymeradwyo neu ei wrthod gan yr Aelodau ar yr adeg briodol. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau na fyddent, drwy gymeradwyo'r Cynlluniau Gweithredu, yn ymrwymo'r Awdurdod i ddarparu adnoddau ar gyfer y prosiectau, ond cytunodd i wneud y gwahaniaeth rhwng y prosiectau hyn yn fwy clir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Cynlluniau Gweithredu "Dathlu Treftadaeth" ac "Adfer Natur" yn amodol ar y sylwadau a nodir uchod.

**9. Penodi Swyddog Diogelu Data**

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod, fis Rhagfyr 2020, wedi awdurdodi swyddogion i gynnal ymarferiad tendro i sicrhau gwasanaethau Swyddog Diogelu Data yn dilyn ymadawiad y swyddog blaenorol. Roedd yr adroddiad yn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd hyd yn hyn, ac yn argymell bod Sarah Burns o'r cwmni Data2Action yn cael ei phenodi i'r rôl am gyfnod o dair blynedd yn dechrau ar y 1af o Ebrill 2021. Er mai'r bwriad yn y lle cyntaf oedd penodi swyddog ar y cyd ag APC Bannau Brycheiniog, eglurwyd eu bod wedi penderfynu yn y pen draw i weithio gyda Chyngor Sir Powys i benodi eu swyddog.

Canmolodd yr Aelodau y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth am ei gwaith fel y Swyddog Diogelu Data Dros Dro, ac eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd hi wedi dymuno cymryd y rôl yn barhaol oherwydd ei chyfrifoldebau eraill yn y gwaith.

Hefyd holodd yr Aelodau ai'r bwriad oedd cynnig contract i Data2Action neu i'r unigolyn dan sylw, a chadarnhaodd y Prif Weithredwr bod rhaid i'r Swyddog Diogelu Data fod yn berson a enwir, felly er y byddai'r contract gyda Data2Action, y cynnig oedd bod y swydd yn cael ei chynnig i Sarah Burns. Cadarnhaodd pe bai unrhyw newid sylweddol i fanylion y penodiad yn y dyfodol, y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD** bod Sarah Burns yn cael ei phenodi yn Swyddog Diogelu Data am gyfnod o dair blynedd gan ddechrau ar y 1af o Ebrill 2021.

**10. Opsiynau Fformat Cyfarfodydd Pwyllgor ar ôl Cyfyngiadau Covid-19**

Dywedwyd bod y newid i gynadledda fideo personol drwy gyfrifiaduron pen-desg yn sgîl y Pandemig wedi esgor ar nifer o fuddion, megis arbedion amser ac allbwn carbon, ac amcangyfrifwyd bod yr Awdurdod wedi arbed 5841kg o garbon gan nad yw'r Aelodau yn teithio i Ddoc

Penfro i fynychu cyfarfodydd.  Fodd bynnag, rhagwelwyd yn y dyfodol y byddai rhai Aelodau o bosibl yn dymuno dychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb, tra bod eraill yn mynychu o bell – sef senario hybrid sy'n gyfuniad o'r ddau.  Roedd yr adroddiad yn nodi rhai ystyriaethau o ran y cyfryw gyfarfodydd, fyddai angen cynllunio a buddsoddi ar eu cyfer.

Nodwyd yn y cyfarfod na allai Dr Plummer fod yn bresennol a'i fod wedi awgrymu cynnal rhai cyfarfodydd yn bersonol, tra bod cyfarfodydd eraill yn cael eu cynnal yn rhithiol, yn hytrach na'r model hybrid sy'n gyfuniad o'r ddau.  Gofynnwyd am farn yr Aelodau.

Gofynnodd un Aelod am archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio cyfleusterau Cyngor Sir Penfro ar gyfer cyfarfodydd hybrid, tra bod eraill o'r farn y dylid cynnal pob cyfarfod yn bersonol yn swyddfeydd yr Awdurdod.  Roedd cytundeb cyffredinol bod angen i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu gyfarfod yn bersonol, ond gallai cyfarfodydd eraill ddilyn y llwybr hybrid neu gael eu cynnal yn rhithiol i fanteisio ar yr arbedion ariannol a charbon fyddai'n deillio o hynny. Awgrymwyd bod angen datrys materion cysylltedd unigol i wella'r opsiwn olaf hwn. Nodwyd hefyd mai un o fanteision cyfarfodydd rhithiol oedd gallu'r Awdurdod i ddarlledu ei gyfarfodydd yn fyw, gan ganiatáu mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd, a mynegodd yr Aelodau awydd i hynny barhau.

Daeth y Prif Weithredwr i'r casgliad, o ystyried yr holl farn a fynegwyd, bod awydd amlwg i gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn bersonol, ond i barhau'n hyblyg o ran cynnal cyfarfodydd eraill o bell neu i ganiatáu mynychu o bell yn y cyfarfodydd. Byddai'r swyddogion yn parhau i archwilio'r opsiynau a dod â gwahanol gynigion gerbron cyfarfod yn y dyfodol.

**NODWYD.**

*Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 12.20 a 12.30pm.*

*Cyflwynodd y Cynghorydd P Kidney ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon.*

**11. Calendr Cyfarfodydd 2021/22**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y calendr cyfredol o gyfarfodydd yn dod i ben fis Mehefin 2021 yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol, ac felly cyflwynwyd y calendr ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer o ddyddiadau Gweithdai wedi'u cynnwys, ac y byddai'r Aelodau yn derbyn gwybodaeth maes o law am y pynciau i'w trafod ar bob dyddiad.

Gan fod cyfarfodydd rhithiol yn dal i gael eu cynnal o dan y cyfyngiadau COVID cyfredol, awgrymwyd, lle cynhelir ail gyfarfod ar ddiwrnod

penodol, bod yr ail gyfarfod yn cael ei gynnal am 2pm, yn hytrach nag yn syth ar ôl cyfarfod y bore fel oedd yn digwydd o'r blaen.

Cytunodd yr Aelodau bod cael amser cychwyn clir ar gyfer ail gyfarfod yn ddefnyddiol, ond roeddent o’r farn bod cynnal gweithdy yn syth ar ôl cyfarfod hir o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu neu'r Awdurdod, yn anodd i’w amseru ac yn dreth ar yr Aelodau, ac awgrymwyd bod cynnal un neu ddau Gweithdy gyda'i gilydd ar ddiwrnodau eraill yn fwy effeithiol. Hefyd codwyd y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd gyda'r hwyr.

**NODWYD.**

**12. Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau: Cais am Statws Siarter Lefel Uwch**

Atgoffwyd yr Aelodau, yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod i wneud cais am statws Siarter Uwch, bod y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau wedi adolygu'r gofynion meini prawf ac wedi symud materion ymlaen lle roedd angen. O ganlyniad, yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, ystyriwyd bod yr Awdurdod bellach mewn sefyllfa i wneud cais.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau i’r swyddogion am eu gwaith ac i'r Aelodau am eu holl gymorth a chefnogaeth ar y daith hyd yn hyn. Ychwanegodd bod y Siarter yn ceisio gwobrwyo'r Awdurdod am y gefnogaeth a ddarperir i Aelodau, ac felly gofynnodd i unrhyw Aelod a allai roi tystiolaeth o’r cyfryw gefnogaeth i nodi hynny mewn e-bost fel y gellid cyfeirio ato yn y ddogfen dystiolaeth.

Mynegodd nifer o Aelodau eu diolch am y gefnogaeth a gawsant gan swyddogion gan groesawu'r diwylliant o ddysgu a chefnogi oedd yn bodoli o fewn yr Awdurdod.

Diolchodd yr Aelodau hefyd i’r swyddogion, yn ogystal â Chadeirydd y Pwyllgor. Gofynnwyd am ba hyd y dyfernir y Siarter, gan nodi y byddai'n bwysig i'r Awdurdod gynnal ei safonau yn hyn o beth, a dywedwyd wrthynt bod y meini prawf yn cael eu hail-asesu bob tair blynedd ond mai rôl y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau oedd sicrhau datblygiad parhaus yr Aelodau.

**PENDERFYNWYD** awdurdodi swyddogion i gyflwyno cais i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y statws Siarter lefel Uwch Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.

**13. Cydnabyddiaeth Ariannol i’r Aelodau 2021/22**

Atgoffwyd yr Aelodau mai cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol oedd pennu’r cyflogau a'r lwfansau sy'n daladwy i Aelodau gan awdurdodau lleol, gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yng Nghymru. Roedd Adroddiad Blynyddol terfynol

y Panel ar gyfer 2021/22 bellach wedi'i gyhoeddi, a nodwyd y prif argymhellion oedd yn berthnasol i'r Awdurdod hwn; byddai'r fframwaith cyflogau newydd yn dod i rym ar y 1af o Ebrill 2021.

Nodwyd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi pennu'r lefelau Cyflogau Sylfaenol a'r Cyflogau Uwch y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad; ni allai'r Awdurdod amrywio'r lefelau hyn. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r Aelodau benderfynu pa swyddi fyddai'n gymwys i dderbyn Cyflog Uwch yn 2021/22, gan fod y cyfyngiad blaenorol o bedwar Cyflog Uwch y gellid eu talu wedi'i ddileu. Roedd tair swydd yn derbyn cyflog uwch ar hyn o bryd sef swyddi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Hefyd gwnaed newidiadau sylweddol i'r cyfraniadau at gostau gofal a chymorth personol.

Dywedodd y Swyddog Monitro pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i briodoli cyflog uwch i Gadeirydd Pwyllgorau ychwanegol, byddai'r Aelodau hynny allai o bosibl elwa o'r newid hwn yn dymuno datgan buddiant. Eglurodd na fyddai datganiad o'r fath yn berthnasol i'r Aelodau hynny sy'n derbyn Cyflog Uwch ar hyn o bryd.

O ystyried bod y terfyn ar nifer y swyddi y gellid talu cyflog uwch iddynt wedi cael ei ddileu, awgrymwyd y dylai Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol dderbyn Cyflog Uwch, er mwyn iddynt allu datblygu i weithredu'n debycach i Bwyllgorau Craffu. Fodd bynnag, dywedodd Cadeirydd un o'r ddau Bwyllgor hyn nad oedd o'r farn bod maint y gwaith yn debyg i'r rhai sy'n derbyn cyflog uwch ar hyn o bryd ac y dylai rôl Cadeirydd y ddau Bwyllgor dan sylw barhau yn ddigyfnewid.

**PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad a bod y trefniadau presennol yn parhau, lle telir Cyflog Uwch i Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

**14. Cymeradwyo Gwariant Cyfalaf Ychwanegol ar gyfer Prynu Pump Cerbyd Trydan**

Dywedwyd bod gan yr Awdurdod dri ar ddeg o faniau masnachol ysgafn yn ei fflyd ar hyn o bryd sy'n rhedeg ar danwydd ffosil. Yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru i'r fflyd sector cyhoeddus fod yn allyriadau isel iawn erbyn 2025, ac i gyflawni ymrwymiad yr Awdurdod i leihau allyriadau carbon drwy reoli ei fflyd cerbydau a'i arferion teithio busnes cyfrifol yn effeithiol, roedd yr Awdurdod yn ceisio disodli'r cyfan o'r cerbydau nwyddau ysgafn tanwydd ffosil cyfredol â faniau trydan.

Roedd grant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn 2020/21 wedi galluogi'r Awdurdod i ddisodli tri car tanwydd disel yr Awdurdod â cherbydau hybrid petrol ac roedd dwy fan drydan wedi'u harchebu. Dymuniad yr Awdurdod

oedd prynu pump fan drydan ychwanegol yn y flwyddyn ariannol 2020/21.

Roedd balans y grant cyllid cyfalaf ar gyfer 2020/21 yn £20,000, a rhaid oedd ymrwymo'r swm hwn cyn diwedd cyfnod y grant. Cost pob fan drydan oedd rhyw £26,200. Roedd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi cynnig cyllid rhannol o £13,000 am bob fan drydan, ac o gyfuno hyn â'r balans o £20,000 o gyllid cyfalaf arall Llywodraeth Cymru, roedd hyn yn gadael diffyg o £46,000. Y disgwyl oedd y byddai'r £46,000 yn cael ei ariannu o Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf yr Awdurdod oedd ar hyn o bryd yn rhyw £310,000.

Cytunodd yr Aelodau bod hyn yn gam pwysig o safbwynt cynlluniau'r Awdurdod i leihau carbon ac yn gosod esiampl gadarnhaol i sefydliadau a busnesau eraill. Y gobaith oedd y gallai'r ffaith bod y faniau yn cael eu pweru gan drydan gael ei hysbysebu ar y faniau. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y dylai'r camau i ddatblygu cerbydau sy'n rhedeg ar hydrogen yn y dyfodol gael eu monitro yn ofalus.

**PENDERFYNWYD** dyrannu £46,000 o'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i ran-ariannu prynu pump fan drydan.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn (cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy'n dilyn) yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 5 Mai 2021

O ran Cofnod 10 ynglŷn ag Opsiynau Fformat Cyfarfodydd Pwyllgor ar ôl Cyfyngiadau Covid-19, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau wedi nodi bod presenoldeb yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a'i Bwyllgorau wedi cynyddu o rhyw 75% i 94% ers iddynt gael eu cynnal yn rhithiol, yn hytrach nag yn bersonol, a bod hyn yn ystyriaeth bwysig arall o ran fformat cyfarfodydd yn y dyfodol.